student finance wales
cyllid myfyrwyr cymru

Ariennir gan **Lywodraeth Cymru**
Funded by **Welsh Government**

Datganiad Diogelu Data ar gyfer noddwyr

Mae'r datganiad hwn yn nodi pwy fydd yn defnyddio'r wybodaeth a ddarparwyd gennych mewn perthynas â chais yr ymgeisydd am gyllid i fyfyrwyr a sut y byddant yn ei defnyddio.

Defnyddir yr wybodaeth y byddwch yn ei rhoi i brosesu ceisiadau am gyllid i fyfyrwyr ar gyfer unigolion sy'n ddibynnol arnoch chi. Mae Gweinidogion Cymru wedi trosglwyddo swyddogaethau penodol sy'n ymwneud â cheisiadau cyllid i'r Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr (SLC).

Mae'r Datganiad Diogelu Data hwn yn berthnasol i noddwyr pob ymgeisydd yn gyffredinol. Nodir y manylion penodol isod.

Bydd angen i SLC gael yr wybodaeth a ddarparwyd mewn perthynas â'r cais i bennu a yw ymgeiswyr sy'n ddibynnol arnoch chi yn gymwys i gael cyllid i fyfyrwyr ac i asesu uchafswm y cymorth ariannol y bydd ganddynt yr hawl i'w gael. SLC yw rheolwyr data yr wybodaeth hon. Mae Gweinidogion Cymru yn rheolwyr data ar gyfer yr wybodaeth hon hefyd, gan eu bod yn gyfrifol amdani dan y gyfraith. Fodd bynnag, os hoffech weld yr wybodaeth hon, cysylltwch ag SLC.

Yn ôl y gyfraith, rhaid i SLC a phrifysgol neu goleg yr ymgeisydd ddiogelu'r cronfeydd cyhoeddus y byddant yn eu trin ac fe allent ddefnyddio'r wybodaeth a ddarparwyd gennych i ddatgelu ac atal twyll.Yn ogystal, gallai SLC rannu'r wybodaeth gyda chyrff Llywodraethol eraill fel HMRC, DWP a HMPO ac efallai y bydd yn cysylltu â'ch cyflogwr i ddilysu ei chywirdeb ac i atal a darganfod twyll. Yn ogystal, gallai SLC rannu'r wybodaeth gyda chyrff eraill, megis trydydd partïon y maent wedi rhoi contract iddynt i gynnal gwiriadau Hunaniaeth, Manylion Preswylio a Manylion Incwm, at y diben hwn, a gyda Chyllid a Thollau EM i gadarnhau lefelau incwm a ddatganwyd. Os darparir gwybodaeth anwir neu anghywir ac os darganfyddir twyll, trosglwyddir y manylion i asiantaethau atal twyll a gorfodi'r gyfraith er mwyn atal twyll a gwyngalchu arian.

Bydd angen i SLC gadw gwybodaeth bersonol amdanoch chi, eich partner a'ch perthnasau i allu archwilio ei asesiad o gymorth ariannol. Os hoffech weld eich gwybodaeth, cysylltwch ag SLC.

Bydd SLC yn rhannu'r hawl i droi at wybodaeth am y cyfrif i ddarparu gwasanaethau cwsmeriaid i chi ac er mwyn ymateb i'ch cwestiynau a diweddaru'r wybodaeth yn eich cyfrif.

Bydd angen i SLC gael gwybodaeth a ddarparwyd mewn perthynas â chais yr ymgeisydd er mwyn trin taliadau, pan fo hynny'n briodol, ac ef yw rheolwr y data ar gyfer yr wybodaeth hon. Bydd yn rhaid i SLC gadw gwybodaeth bersonol amdanoch chi at y diben hwn.

Yn ogystal, efallai y bydd SLC yn defnyddio'ch gwybodaeth i gynnal neu ddatblygu ei systemau.

Efallai y bydd **prifysgol neu goleg yr ymgeisydd** yn gofyn am wybodaeth ariannol y byddwch yn ei darparu mewn perthynas â chais yr ymgeisydd am gyllid i fyfyrwyr at ddibenion gweinyddu bwrsariaethau gan SLC neu Weinidogion Cymru. Dim ond pan fyddwch chi wedi rhoi eich caniatâd i'r wybodaeth gael ei rhannu at ddibenion gweinyddu bwrsariaethau y bydd yr wybodaeth hon yn cael ei rhannu.

Yn yr achos hwn, y brifysgol neu'r coleg fydd rheolwr data'r wybodaeth a bydd yn ei defnyddio i asesu cymhwystra ac i dalu unrhyw fwrsariaeth neu ysgoloriaeth y gallai'r ymgeisydd fod yn gymwys i'w cael. Os hoffech weld yr wybodaeth hon, cysylltwch â phrifysgol neu goleg yr ymgeisydd.

Gallai **Gweinidogion Cymru** ddefnyddio'r wybodaeth a ddarparwyd gennych i fonitro perfformiad y system cyllid i fyfyrwyr ac i ddatblygu polisïau neu fentrau yn y dyfodol. Bydd unrhyw allbwn a gyhoeddir o'r gwaith ystadegol hwn yn ddienw ac ni fydd yn nodi manylion personol unigolion.

Gallai'r **Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (HEFCW) a'r Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch (HESA)**, sy'n cyflawni rhai swyddogaethau penodol ar ran HEFCW, wrth gyflawni swyddogaethau statudol HEFCW yn ymwneud ag ariannu addysg, ddefnyddio'r wybodaeth a ddarparwyd at ddibenion dadansoddi ystadegol. Ni fydd HESA a HEFCW yn nodi manylion personol unigolion mewn unrhyw ganlyniadau a gyhoeddir.